Dysgwyr

Amodau Arbennig

1. Mae'r cystadlaethau ar gyfer dysgwyr Cymraeg dros 16 oed, ar wahân i gystadleuaeth 138

2. Rhennir y lefelau fel a ganlyn:
   (i) **Mynediad:** wedi derbyn hyd at 120 o oriau cyswllt
   (ii) **Sylfaen:** wedi derbyn hyd at 240 o oriau cyswllt
   (iii) **Canolradd:** wedi derbyn hyd at 360 o oriau cyswllt
   (iv) **Agored:** cystadlaethau sy'n agored i unrhyw un sydd wedi dysgu'r Gymraeg fel oedolyn hyd at ddosbarthiadau hyfedredd. Mae hefyd yn agored i'r rhai sydd yn, neu wedi astudio Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol uwchradd. Nid yw'r cystadlaethau yn agored i'r rhai sydd wedi dilyn cwrs gradd yn y Gymraeg neu unrhyw radd drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhannol neu'n llwyr, nac i'r rhai sy'n gweithio fel tiwtor Cymraeg ers mwy na 2 flynedd.

3. **Hawlfraint**
Cyfrifoldeb corau, partïon, grwpiau neu unigolion yw sicrhau hawlfraint unrhyw ddarnau hunanddewisiad. Rhaid nodi hyn ar y ffurflen gystadlu. Ceir canllawiau a chyfarwyddiadau pellach yn adran 'Cystadlu' ar wefan yr Eisteddfod. Dylid anfon copi o unrhyw ddarnau at y Trefnydd erbyn 15 Mehefin 2019.

4. **Oedran**
Rhaid i'r cystadleuydd fod o fewn cwmpas oedran y gystadleuaeth ar 31 Awst 2019.

5. **Copïau**
Mae hi'n anghyfreithlon gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth, barddoniaeth neu unrhyw waith sydd wedi'i gyhoeddi.

DS Dylech sicrhau eich bod wedi darllen y rheolau ac amodau cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau cyn cystadlu.